# Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol yng Ngharchar Berwyn EF

## Ar gyfer blwyddyn adrodd
## 1 Mawrth 2025 i 28 Chwefror 2026

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2026

# Cynnwys


| **Adrannau rhagarweiniol1 – 3** | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| 1. | Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol | 3 |
| 2. | Disgrifiad o'r sefydliad | 4 |
| 3. | Pwyntiau allweddol | 5 |
| **Adrannau tystiolaeth 4 – 7** | | |
| 4. | Diogelwch | 9 |
| 5. | Triniaeth deg a dyngarol | 12 |
| 6. | Iechyd a lles | 17 |
| 7. | Cynnydd ac ailsefydlu | 21 |
| **Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol** | | |
| Ystadegau'r Bwrdd | | 25 |
| Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol | | 25 |


**Cyhoeddir pob adroddiad blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol ar [www.imb.org.uk](http://www.imb.org.uk)**

# Adrannau rhagarweiniol 1 – 3

## 1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae Deddf Carchardai 1952 yn mynnu bod pob carchar yn cael ei fonitro gan fwrdd annibynnol, wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r carchar wedi'i leoli.

O dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno gyda gweinidogion, mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- bodloni ei hun bod y rhai sydd yn nalfa'r carchar yn cael eu trin yn ddyngarol ac yn deg a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau yn amrywiol ac yn ddigonol
- rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y mae awdurdod wedi'i ddirprwyo iddynt fel y mae'n ystyried sy'n briodol, am unrhyw bryder sydd ganddynt
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith y mae'r rhain yn ei gael ar y rhai sydd yn y ddalfa.

I alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl i gael mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar ac at gofnodion y carchar.

Mae'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb arall Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i lunio i gryfhau gwarchodaeth i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod bod pobl o'r fath yn arbennig o agored i niwed ac yn ceisio eu hatal rhag cael eu trin yn wael drwy sefydlu system o ymweliadau neu arolygon ar gyfer pob dalfa. Mae OPCAT yn mynnu bod gwladwriaethau'n dynodi Mecanwaith Atal Cenedlaethol i gynnal ymweliadau â dalfeydd, i fonitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer carcharorion ac i wneud argymhellion i atal pobl rhag cael eu trin yn wael. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn rhan o Fecanweithiau Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

## 2. Disgrifiad o'r sefydliad[1]

Mae carchar Berwyn wedi'i leoli ar Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam yng Ngogledd Cymru. Fe'i rhagwelwyd fel carchar derbyn, ailsefydlu (45%) a hyfforddiant (45%) i ddynion, ond ar hyn o bryd mae hefyd yn cadw carcharorion remand a chategori B (10%; nad oes angen y lefel uchel o ddiogelwch ar eu cyfer, ond y mae angen eu cadw mewn carchardai diogel i'w hatal rhag dianc, ac mae'n cynnwys pedair cymuned o garcharorion agored i niwed (VP). Mae'n garchar modern, gyda chapasiti gweithredu o 2000 (yr uchafswm o garcharorion y gellir eu dal heb risg ddifrifol i ddiogelwch, trefn dda a gallu rhedeg y carchar yn briodol). Mae'r carchar yn cynnwys tri phrif dŷ, neu flociau preswyl: Alwen, Bala a Ceiriog, ac Ogwen, uned gofal a gwahanu (CSU), sy'n gallu dal 21 carcharor. Mae pob tŷ wedi'i rannu'n wyth adain. Mae tua 30% o'r celloedd yn rhai deiliadaeth sengl a 70% yn ddeiliadaeth ddwbl. Cynlluniwyd y celloedd deiliadaeth ddwbl yn y fath fodd.

---

[1] Mae'r ffigurau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn wybodaeth reoli leol. Maent yn adlewyrchu sefyllfa'r carchar ar yr adeg adrodd ond gallent newid yn dilyn dilysu pellach ac felly efallai na fyddant bob amser yn cyfateb ag Ystadegau Swyddogol a gyhoeddir yn ddiweddarach gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# 3. Pwyntiau allweddol

## 3.1 Prif ganfyddiadau

### Diogelwch

- Yn gyffredin â gweddill yr ystâd carchardai, mae cyffuriau yn parhau i ddod i mewn i CEF Berwyn. Er bod mesurau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn yn CEF Berwyn, gall hyd yn oed pecynnau bach iawn gynnwys digon o gyffuriau i bara wythnosau neu fisoedd i garcharor. Mae ein gwaith monitro wedi dangos bod llawer o waith yn cael ei wneud yn y carchar i fynd i'r afael â hyn a rheoli'r sefyllfa.
- Mae nifer y digwyddiadau o garcharorion yn cael eu canfod o dan ddylanwad (UTI) sylwedd anghyfreithlon, yn ogystal â digwyddiadau treisgar, yn parhau i fod yn uchel er eu bod wedi gostwng o gynnydd sydyn ar ddechrau 2025. Mae ofn o drais a diflastod yn gwaethygu hyn. Yn benodol, mae'r defnydd o sylweddau anghyfreithlon yn ysgogi dyled a thrais, a chyfeirir at hyn yn aml mewn adolygiadau cadw ar wahân (trefn dda neu ddisgyblaeth, neu GOoD) a dyfarniadau (gwrandawiadau pan fydd carcharorion wedi'u cyhuddo o dorri rheolau).
- Mae CEF Berwyn wedi cyflwyno dull gweithredu BASICs newydd (fframwaith strwythuredig sy'n pennu disgwyliadau o ran ymddygiad staff, cysondeb a diogelwch) i reoli esgyll (gweler adran 5.3), gyda'r nod o wella diogelwch i ddynion a swyddogion. Fodd bynnag, mae ein gwaith monitro yn cadarnhau adroddiadau gan y Llywodraethwyr bod materion yn parhau o ran cysondeb a diwylliant ymhlith swyddogion llai profiadol.
- Mae'r Bwrdd yn bryderus iawn ynglŷn â dynodiad CEF Berwyn fel y carchar derbyn ar gyfer pobl ifanc yn yr ystâd ieuenctid a chartrefi plant diogel pan fyddant yn 18 oed. Yn ein barn ni, mae maint Berwyn yn golygu bod darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i unigolion a sicrhau eu diogelwch yn her bosibl.

### Triniaeth deg a dyngarol

- Mae'r llety yn dda ar y cyfan ac yn cael ei gadw'n lân. Mae pwysau'r boblogaeth wedi golygu ei bod yn anodd cynnal rhaglen ailaddurno'r celloedd. Gall atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw cyffredinol gymryd gormod o amser i'w cwblhau. Fodd bynnag, ychydig iawn o geisiadau a dderbynnir (sef sylwadau ysgrifenedig carcharorion i'r Bwrdd Monitro Annibynnol) ynglŷn â llety.
- Adroddwyd y llynedd bod problemau gwresogi wedi'u datrys, ond nid yw hyn yn wir bellach. Mae'r angen i osod boeleri dros dro wedi golygu costau sylweddol ac mae'r broblem yn parhau.
- Mae bwydlenni bwyd iach newydd wedi'u cyflwyno ac wedi'u croesawu. Mae'r gegin yn gwneud pob ymdrech i ddiwallu gofynion deietegol arbennig.
- O arsylwadau'r Bwrdd, gwnaed ymdrechion sylweddol i wella'r cyfleoedd i garcharorion siarad Cymraeg, gan gynnwys mynediad at sianelau teledu a radio Cymraeg. Mae penodi mwy o staff a swyddogion sy'n siarad Cymraeg yn flaenoriaeth.
- Bu problemau gydag oedi yn y system gwyno. Mae hyn wedi bod yn destun nifer fawr o geisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol.
- Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd y nifer o esgyll ar gyfer carcharorion agored i niwed i bedair o ganlyniad i benderfyniad y Gwasanaeth

Carchardai i drosglwyddo mwy o garcharorion agored i niwed i'r Berwyn. Mae hyn wedi cael effaith ar y ffordd mae'r carchar yn rheoli eu symudiadau a beth y gellir ei gynnig yn nhermau cyrsiau a gweithgareddau.

**Iechyd a lles**

- Mae maint y trosiant yn y boblogaeth yn cael effaith sylweddol ar wasanaethau gofal iechyd a lles. Mae parafeddygon ar y safle wedi gwella'r gofal mewn achosion brys, gan leihau'r niferoedd sydd angen mynd i'r ysbyty. Mae'n ymddangos bod y llinell gymorth iechyd a lles, sy'n cael ei gweithredu gan y carcharorion, yn effeithiol ac mae'n cael ei gwerthfawrogi'n fawr.
- Er bod y Berwyn yng Nghymru, mae cyfran fawr o'i garcharorion yn dod o Loegr. Nododd y Bwrdd Monitro Annibynnol y gall hyn achosi oedi ac anawsterau wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, am eu bod yn trosglwyddo o un system i un arall.
- Mae'r oedi hir a pharhaus am lety iechyd meddwl arbenigol yn achosi straen i garcharorion a staff, nad ydynt wedi'u cymhwyso i ddelio â salwch meddwl difrifol. Fodd bynnag, mae hyfforddiant ychwanegol yn cael ei gyflwyno i staff ac mae ymgais i symud i ddulliau rheoli rhagweithiol, yn hytrach nac ymatebol.
- Building Choices yw'r genhedlaeth newydd o raglenni ymddygiad (gweler adran 6.3) ac mae'n cynnig elfennau dwyster cymedrol ac uchel o'r rhaglen i wahanol garfanau troseddu. Mae'n dilyn meini prawf blaenoriaethu cenedlaethol gan gynnwys ystyried parôl neu ddyddiadau rhyddhau. Oherwydd trosiant y boblogaeth, gall hyn greu problemau i ddynion sydd ar y rhestr aros. Gall newydd-ddyfodiaid gyda dyddiad rhyddhau agosach gael blaenoriaeth, a all arwain at gwynion a cheisiadau ynglŷn ag annhegwch canfyddedig.
- O'n harsylwadau ni, mae adsefydlu cyffuriau ac alcohol yn flaenoriaeth i'r carchar ac yn her barhaus. Disgwylir i'r rhaglen byw'n annibynnol heb sylweddau ddisodli'r rhaglen adferiad cyffuriau. Mae llawer o bryder ar ran y gwasanaeth Camddefnyddio sylweddau a'r Bwrdd ynglŷn ag effeithiau cyfansoddion cemegol cartref a ddefnyddir mewn sylweddau seicoweithredol ar iechyd; mae staff yn gweld symptomau sy'n debyg i'r defnydd o getamin, sy'n ddifrifol iawn.

**Cynnydd ac ailsefydlu**

- Mae trosiant y boblogaeth yn parhau i greu problemau wrth fynd i'r afael â gwaith paratoi ystyrlon ar gyfer rhyddhau ac ailsefydlu. Mae dilyniant cynlluniau rhyddhau yn gynnar ac adalw tymor byr wedi gwaethygu hyn.
- Mae'r gwasanaethau prawf yn parhau heb eu staffio yn llawn ac mae'r adolygiad OMIC presennol (rheoli troseddwyr yn y ddalfa) wedi amharu ar hyn. Mae'r adolygiad hwn yn ceisio ail-gydbwyso adnoddau rhwng carchardai a'r gymuned.
- Mae'r hwb ailsefydlu yn parhau i gynnal a datblygu perthnasoedd gydag awdurdodau lleol ac elusennau yng Nghymru a Lloegr i helpu i leddfu'r anawsterau o sicrhau llety a chael mynediad at wasanaeth ar ôl eu rhyddhau. Fodd bynnag, mae Cyngor Bwrdeistref Wrecsam yn parhau i fod yn eithriad (gweler adran 7.5).

### 3.2 Prif feysydd i'w datblygu

***I'R GWEINIDOG***

- Sut fydd y Gweinidog yn lleihau neu'n lliniaru'r amhariad systemig i'r gwaith cynllunio a pharatoi i ryddhau carcharorion sy'n cael ei achosi gan gynlluniau rhyddhau yn gynnar, a'r llwyth gwaith uwch sydd gan staff sydd eisoes dan bwysau oherwydd ail-gyfrifo dedfrydau a gwiriadau cyn rhyddhau?
- A yw'r Gweinidog o'r farn bod cynnydd digonol wedi'i wneud i gyflawni anghenion y dynion ag anghenion iechyd meddwl sylweddol yn y system carchardai? Os nad ydynt, pa gamau gweithredu pellach sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r bylchau sy'n weddill yn y ddarpariaeth?
- Pa gamau brys y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion traws-ffiniol cyson sy'n cael effaith niweidiol ar garcharorion o Loegr sy'n cael eu carcharu yng Nghymru?
- Pa gamau pendant a gymerir i sicrhau'r adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â methiannau seilwaith hirhoedlog? Er enghraifft, roedd angen llogi boeleri drud dros dro ar gyfer y system wresogi drwy'r gaeaf ym mhob adeilad, er gwaethaf yr ymdrechion blaenorol i'w hatgyweirio. Deellir yn awr nad yw'r contractwr gwreiddiol yn gysylltiedig â hyn.
- Sut fydd y Gweinidog yn sicrhau bod y methiannau dylunio a manyleb a brofwyd yn CEF Berwyn (gan gynnwys y system wresogi a'r diffyg cyfleusterau ar gyfer carcharorion ar lefel uwch y cynllun cymhellion) yn digwydd eto mewn datblygiadau ar gyfer y carchar yn y dyfodol? Pa fesurau atebolrwydd sydd ar waith i atal hyn?

### *I'R GWASANAETH CARCHARDAI*

- Sut y gellir lleihau'r trosiant uchel iawn o garcharorion a sefydlogi poblogaeth y carchar, gan greu profiad mwy sefydlog i garcharorion a'u galluogi i gwblhau hyfforddiant, hunanddatblygiad ac ailsefydliad ystyrlon?
- Sut y gellir gwneud yr ystâd carchardai oedolion yn fwy diogel i bobl ifanc agored i niwed sy'n cael eu trosglwyddo o'r ystâd ieuenctid yn 18 oed, er mwyn iddynt brofi cyfundrefn a chefnogaeth briodol?
- Sut y gellir gwella prosesau rheoli a pherfformiad cyfleusterau'r contractwr trydydd parti, er mwyn i wasanaethau fod yn fwy ymatebol ac i'r carchar gael ei gynnal i safon uwch?
- Sut fydd y Gwasanaeth Carchardai yn mynd i'r afael â'r methiant i leoli carcharorion yn agosach at eu teuluoedd, a pha fesurau a roddir ar waith i gyflymu trosglwyddiadau tosturiol i'r rhai sy'n profi newidiadau teuluol arwyddocaol?

### *I'R LLYWODRAETHWR*

- Pa sicrwydd y gellir ei roi y bydd pob carcharor yn derbyn meddyginiaeth ar amser ac ym mhob ardal o'r carchar, gan gynnwys wrth gyrraedd, ar esgyll preswyl ac yn yr uned gofal a gwahanu ac y cyflawnir hyn yn gyson? Yn benodol, sut y bydd dulliau effeithiol o reoli ciwiau meddyginiaeth yn cael eu gorfodi er mwyn lleihau materion ymddygiad wrth sicrhau na fydd unrhyw garcharor yn methu eu meddyginiaeth ofynnol?
- Sut y gellir gwella safonau drwy gefnogi staff profiadol, sefydlogi trosiant staff a newidiadau rôl, a thrwy ddatblygu staff ar bob lefel yn eu rolau, er mwyn gwella cynhyrchiant ac arbenigedd, a thrwy hynny wella profiad dyddiol carcharorion?
- Sut y gall pob agwedd ar y system gwyno berfformio'n ymatebol?

- Sut y gellir sicrhau darpariaeth gyson o gyfarpar diogelwch a diogelu? Mae hyn yn cynnwys dillad gwyn ar gyfer gweini bwyd, eli haul a hetiau ar gyfer y dynion sy’n gweithio yn yr awyr agored, esgidiau diogelwch a chyfarpar diogelu ar gyfer dynion mewn gweithdai.

### 3.3 Ymateb i’r adroddiad blaenorol

| Mater a godwyd | Ymateb a roddwyd | Cynnydd |
|---|---|---|
| Y gyfradd rhyddhau ac adalw carcharorion IPP [carcharu er diogelwch y cyhoedd]. | Cynllun Gweithredu IPP wedi’i ddiweddaru ac adroddiad blynyddol. | Mae’r Bwrdd yn nodi’r cynlluniau, ond nid yw hyn wedi cael unrhyw effaith arwyddocaol ar garcharorion IPP presennol. |
| Gostyngiad yn nifer y carcharorion sy’n cyflawni dedfrydau tymor byr. | Mae’r Bil Dedfrydu yn anelu at wneud hyn. | Ni ddaeth y Bil Dedfrydu i rym yn y cyfnod adrodd. Mae’r gyfradd adalw uchel o garcharorion sy’n cael eu rhyddhau yn gynnar wedi cynyddu’r nifer o garcharorion tymor byr yn y Berwyn ac nid oedd amser digonol i’w paratoi i gael eu rhyddhau eto. |
| Y gwahaniaethau rhwng trefniadau cyn rhyddhau ar gyfer carcharorion sy’n dychwelyd i Gymru a Lloegr. | Dim ymateb. | Mae gwahaniaethau yn parhau yn y gwasanaethau ac ym mhrofiad carcharorion o Gymru a Lloegr cyn eu rhyddhau. Mae hyn yn parhau i greu straen sylweddol i rai carcharorion. |
| Trosglwyddiadau annigonol i gyfleusterau iechyd meddwl diogel. | Mae’r Bil Iechyd Meddwl newydd yn creu terfyn amser statudol o 28 diwrnod ar gyfer trosglwyddo o’r carchar i gyfleusterau iechyd meddwl. | Nid yw’r terfyn amser yn dod i rym tan 2027-2028. Trosglwyddwyd 16 carchar ym mlwyddyn adrodd 2025-2026 o gymharu ag 20 y flwyddyn flaenorol. Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad, ym mis Chwefror a Mawrth 2026, roedd saith carcharor arall yn aros i gael eu trosglwyddo. |

# Adrannau Tystiolaeth 4 – 7

## 4. Diogelwch

### 4.1 Derbyn a sefydlu

Mae'r llysoedd a wasanaethir gan y carchar a'r llwybrau a gymerir gan gerbydau cludo'r carchar yn aml yn golygu bod carcharorion yn cyrraedd yn ddiweddarach yn y dydd ar ôl taith hir, mor hwyr â 7pm. Mae'r carchar yn barod i'w derbyn, ac mae staff gofal iechyd a bwyd ar gael. Fodd bynnag, mae carcharorion sy'n cyrraedd yn hwyr yn gallu golygu oedi cyn darparu meddyginiaeth. Mae arsylwadau'r Bwrdd Monitro Annibynnol wedi dangos eu bod yn derbyn gofal da wrth gyrraedd a'u bod yn cael eu cefnogi gan grŵp bach o ymddiriedolwyr ymroddedig. Un ohonynt yw Gwrandäwr,  hynny yw, carcharor sydd wedi'i hyfforddi i siarad â charcharorion eraill a'u cefnogi.

Rydym wedi arsylwi prinder rhai eitemau yn y dderbynfa, sy'n parhau wrth i garcharorion symud i'r esgyll. Bu oedi hir a rheolaidd ar gyfer atgyweirio drysau'r toiled yn y dderbynfa ac mae'n rhaid gofyn i'r staff am bapur toiled.

Mae'r Berwyn yn darparu gliniadur i bob carcharor. Fodd bynnag, bu oedi sylweddol gyda'r ddarpariaeth hon, weithiau cyhyd â dau fis. Mae ein harsylwadau wedi dangos bod ymdrech barhaus i leihau'r oediadau hyn ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud. Mae carcharorion newydd yn derbyn gliniaduron o fewn ychydig ddyddiau. Rydym yn derbyn adroddiadau rheolaidd ei bod yn cymryd gormod o amser i rifau ffôn gael eu cymeradwyo, er y gall hyn fod am resymau y tu hwnt i reolaeth y carchar.

Cynghorwyd y Bwrdd Monitro Annibynnol tuag at ddiwedd y cyfnod adrodd y byddai carchar y Berwyn yn derbyn carcharorion 18 oed wedi'u trosglwyddo o ieuenctid yn y ddalfa a llety diogel i bobl ifanc. Mae ymweliadau ymgyfarwyddo wedi'u cynllunio cyn trosglwyddo, ond rydym yn parhau i fod yn bryderus, fel y mae'r carchar a'r Gwasanaeth Prawf, ynglŷn â sut y bydd y trosglwyddiadau hyn yn cael eu rheoli a sut i sicrhau diogelwch y rhai sy'n cyrraedd. Mae angen cymorth ychwanegol gan swyddogion ar y dynion ifanc hyn, a gallai hyn fod yn anghynaliadwy os oes cynnydd sylweddol yn eu niferoedd. Mae trafodaethau yn parhau gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaethau Ieuenctid yn y Ddalfa ynglŷn ag addasrwydd y Berwyn ar gyfer hyn.

### 4.2 Hunanladdiad a hunan-niweidio, marwolaethau yn y ddalfa

Bu un farwolaeth yn y ddalfa yn ystod y flwyddyn adrodd ac rydym yn aros am adroddiad y crwner.

Mae achosion o hunan-niweidio wedi amrywio'n sylweddol o fis i fis, ond mae'r cyfanswm cyffredinol wedi gostwng o gymharu â'r flwyddyn adrodd flaenorol; nid oedd y ffigurau cyhoeddedig ar gyfer Ionawr a Chwefror 2026 ar gael ar ddiwedd y flwyddyn adrodd.

| Maw | Ebr | Mai | Meh | Gor | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 151 | 122 | 129 | 201 | 139 | 168 | 87 | 93 | 124 | 118 | 1333 |

Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd am hunan-niweidio yw materion yn ymwneud â'r gyfundrefn (patrwm dyddiol, rheolau ac amodau bywyd yn y carchar) neu'r

gymuned y mae'r carcharor wedi'i lleoli ynddi. Mae llywodraethwyr yn ceisio darparu ar gyfer newidiadau yn y gymuned lle bynnag y bo modd. Yr ail reswm a ddyfynnir amlaf yw iechyd meddwl a straen.

Mae gwaith monitro'r Bwrdd o ddogfennau asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) (a ddefnyddir i gefnogi carcharorion sydd mewn perygl o hunan-niweidio a hunanladdiad) yn dangos bod y carcharorion yn cael eu monitro'n briodol ar y cyfan, er nad yw'r cofnodion bob amser yn gyflawn ym mhob agwedd. Agorwyd cyfanswm o 800 ACCT yn 2025, sy'n barhad o duedd gynyddol, yn rhannol oherwydd cynnydd yn nifer y carcharorion.

Mae Gwrandawyr hyfforddedig yn gweithredu drwy'r carchar, er nad ydynt bob amser wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws pob cymuned ac mae rhyddhau carcharorion wedi effeithio ar y nifer.

### 4.3 Trais a lleihau trais, hunanynysu

Mae'r Bwrdd yn parhau i bryderu am drais, rhwng carcharorion a thuag at y staff. Mae hunan-niweidio yn parhau i fod yn bryder hefyd. Mae strategaethau'n cael eu rhoi ar waith ac, yn agos at ddiwedd y cyfnod adrodd, mae'r lefelau o drais wedi gostwng ac maent yn sylweddol is na'r lefelau a welwyd yn ystod haf 2025. Fodd bynnag, maent yn parhau i fod yn uwch na'r cyfnod adrodd blaenorol, gyda chynnydd o 4% i 879 o ddigwyddiadau a adroddwyd.

Mae'r gwaith o fonitro dyfarniadau wedi dangos bod materion iechyd meddwl yn gyffredin a'u bod yn cyfrannu at dorri rheolau a thrais rhwng carcharorion. Mae ffactorau eraill yn cynnwys trais wedi'i ysgogi gan ddyled. Mae carcharorion nad ydynt yn teimlo'n ddiogel neu sydd wedi dioddef trais yn cael eu hadleoli gan y tîm diogelwch lle y bo'n briodol.

Mae tystiolaeth yn cael ei chasglu a'i hadrodd yn fwy cyson ar gyfer y broses ddyfarnu, gan gynnwys trwy ddefnyddio camerâu fideo a wisgir ar y corff (BWC). Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion a ddiystyrir.

*Dadansoddiad o ddigwyddiadau treisgar*

| | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gor | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymosodiad - Carcharor | 48 | 54 | 58 | 63 | 62 | 55 | 38 | 36 | 40 | 46 | 50 | 35 | 585 |
| Ymosodiad – Staff | 17 | 16 | 16 | 25 | 17 | 18 | 13 | 15 | 14 | 10 | 5 | 8 | 174 |
| Ymosodiad Difrifol – Carcharor | 4 | 3 | 5 | 10 | 9 | 3 | 2 | 4 | 4 | 4 | 4 | 6 | 58 |
| Ymosodiad Difrifol - Staff | 3 | 6 | 6 | 6 | 1 | 5 | 1 | 2 | 3 | 1 | 1 | 2 | 37 |
| Ymosodiad Rhywiol - Carcharor | 1 | 1 | | 1 | 1 | | | 2 | | 1 | 1 | 1 | 9 |
| Ymosodiad Rhywiol - Staff | | | 1 | | | | 2 | | | | 0 | 0 | 3 |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anaf Anesboniadwy | | 1 | 1 | 1 | | | 3 | | 2 | 3 | 1 | 1 | 13 |
| **Cyfanswm** | **72** | **81** | **87** | **106** | **90** | **81** | **59** | **59** | **63** | **65** | **62** | **53** | **879** |

### 4.4 Defnydd o rym

Bu cynnydd sydyn yn nifer y digwyddiadau defnyddio grym (UoF) o fis Ebrill i fis Mehefin 2025, ond mae hyn wedi dychwelyd i lefelau mwy cyson erbyn hyn. Mae'r cydlynydd defnydd o rym wedi bod yn olrhain y carcharorion a'r staff sy'n gysylltiedig â digwyddiadau; cymerir camau gweithredu, fel y bo angen, i fynd i'r afael â materion carcharorion a sicrhau cefnogaeth a hyfforddiant i swyddogion. Yn Ionawr 2026, derbyniodd y tîm archwiliad 'gwyrdd' (sy'n golygu eu bod yn cyflawni'r safonau gofynnol a'u bod yn gweithio'n effeithiol yn gyffredinol). Rydym wedi arsylwi na wneir defnydd cyson o gamerâu a wisgir ar y corff (BWC).

Bu 144 o ddigwyddiadau yn Rhagfyr 2025, yr oedd 26 ohonynt wedi'u cynllunio ac roedd 118 yn ddigymell. Ni ddefnyddiwyd BWVC mewn 21% o'r digwyddiadau hyn. Cwblhawyd ôl-drafodaethau gyda charcharorion ym mhob un o'r achosion, gyda 123 o ôl-drafodaethau staff (85%). Fel yn adroddiad y llynedd, y prif reswm dros ddigwyddiadau oedd gwrthod lleoli i gell (20%), yna ceisiadau lleihau risg (15%), atal niwed neu ymosodiad (14%), a bod o dan ddylanwad cyffuriau anghyfreithlon neu alcohol (11%).

Mewn un digwyddiad, arweiniodd y defnydd o rym at anafiadau difrifol i garcharor. Cyfeiriwyd y mater at yr heddlu, a chafodd nifer o staff eu gwahardd o'r sefydliad. Mae'r staff hyn wedi dychwelyd i'w dyletswyddau llawn ers hynny, yn dilyn prosesau disgyblaeth fewnol; fodd bynnag, mae ymchwiliad yr heddlu'n parhau.

### 4.5 Atal eitemau anghyfreithlon

Mae sylweddau seicoweithredol ar gael yn rhwydd drwy'r carchar, er gwaethaf ymdrechion dyfal y staff i reoli cyffuriau sy'n dod i mewn i'r carchar a chreu cyffuriau o'r deunyddiau sydd ar gael yn y carchar.

Mae argaeledd sylweddau seicoweithredol wedi cael effaith sylweddol ar iechyd meddwl y carcharorion. Gall hyn arwain at drosglwyddiadau i'r uned Gofal a Gwahanu (CSU) er mwyn atal mynediad a rhoi cyfle i iechyd meddwl sefydlogi'n ddigonol cyn dychwelyd i'r llety preswyl, weithiau mewn lleoliad gwahanol er mwyn lleihau'r risg y bydd yn digwydd eto. Mae diflastod, yn ogystal â'r ffaith bod y sylweddau hyn ar gael yn rhwydd, yn ffactor a ddyfynnir yn gyffredin mewn achosion o ailddefnyddio. Mae ein harsylwadau wedi dangos bod defnyddio'r sylweddau hyn hefyd yn cyfrannu at ddyled sydd, yn ei dro, yn ysgogi trais a mathau eraill o ymddygiad niweidiol.

Mae'r defnydd o sylweddau seicoweithredol yn un o brif achosion galwadau brys i wasanaethau gofal iechyd y carchar.

Mae'r math o fêp sydd ar gael wedi'i newid, gyda'r bwriad o leihau gallu carcharorion i gael mynediad at fatris a'u defnyddio gyda sylweddau anghyfreithlon. Mae pryder y bydd y trethi arfaethedig a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gynnyrch fepio yn cynyddu prisiau ac yn achosi anawsterau o ran fforddiadwyedd cantîn (y system a ddefnyddir gan garcharorion i brynu nwyddau a chyflenwadau).

Nid oes gan y Bwrdd unrhyw dystiolaeth o ostyngiad ystyrlon ym mhresenoldeb sylweddau seicoweithredol yn y flwyddyn adrodd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae lleihau'r sylweddau hyn yn flaenoriaeth allweddol i'r carchar. Mae Narcotics Anonymous (grŵp cymorth lle mae pobl yn helpu ei gilydd i wella ar ôl bod yn gaeth i gyffuriau a pharhau i beidio cymryd cyffuriau) yn cael ei dreialu yn awr fel anogaeth i leihau'r achosion o fod yn gaeth i gyffuriau.

# 5. Triniaeth deg a dyngarol

## 5.1 Llety, dillad, bwyd

Mae’r carchar wedi gweithredu i’w gapasiti llawn drwy’r flwyddyn gyfan fwy neu lai; mae hyn wedi atal rhaglenni i ailaddurno celloedd ond, yn gyffredinol, mae’r llety mewn cyflwr derbyniol. Mae unffurfiaeth y llety yn atal y carchar rhag cynnig cyfundrefn fwy blaengar gyda chyfleusterau gwell i garcharorion ar lefel uwch (uchaf) y cynllun cymhellion. Nid oedd cyfleusterau o’r fath yn rhan o ddyluniad gwreiddiol yr adeilad. Mae’n cymryd gormod o amser i atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw gael eu cwblhau, ym marn y Bwrdd. Mae deunyddiau glanhau wedi bod yn brin ar adegau, oherwydd eu bod wedi cael eu defnyddio fel deunyddiau crai ar gyfer creu sylweddau seicoweithredol, ond ar y cyfan, mae’r carchar yn cael ei lanhau i safon dderbyniol. Mae'n ymddangos bod yr ardaloedd awyr agored yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Er gwaethaf yr atgyweiriadau i’r system wresogi yr adroddwyd arnynt y llynedd, mae problemau wedi parhau, yn arbennig dosbarthiad dŵr poeth o amgylch y safle o’r boeleri canolog. Mae hyn wedi golygu llogi boeleri dros dro i’w gosod ym mhob adeilad, a hynny am gost sylweddol; mae eu gweithrediad wedi bod yn foddhaol, er bod rhai carcharorion wedi cwyno am amlygiad i fygdarth yn eu celloedd. Ystyriwyd y posibilrwydd o ymestyn y ffliwiau ond nid oedd angen gwneud hyn am nad oedd yr allyriadau yn beryglus. Mae cwynion ynglŷn â’r system wresogi wedi lleihau.

Yn ystod y flwyddyn, bu toriad pŵer mawr heb ei gynllunio, a effeithiodd ar y carchar pan nad oedd y generaduron wrth gefn yn gallu rhedeg mwyach. Sefydlodd gwaith monitro y Bwrdd Monitro Annibynnol fod carcharorion yn parhau i allu codi larwm a bod y carchar yn ddiogel. Collwyd rhai apwyntiadau gofal iechyd nad oeddent yn frys a gohiriwyd ymweliadau cymdeithasol.

Mae ein gwaith o fonitro bwyd wedi dangos ei fod o ansawdd da ac yn flasus. Cyflwynwyd bwydlen iach newydd yn ddiweddar, sy’n canolbwyntio ar opsiynau bwyd iach. Mae’n ymddangos bod cyflwyno’r fwydlen newydd wedi bod yn ddidrafferth ac ychydig iawn o gwynion a dderbyniodd y Bwrdd ynglŷn â’r newid. Mae staff y gegin wedi gweithio’n agos gyda staff y gampfa i sicrhau cefnogaeth gyffredinol i’r dull gweithredu newydd. Mae eu gwaith caled gyda'r newid hwn yn glodwiw, yn enwedig gan eu bod yn gweithio o fewn cyfyngiadau cyllidebol tynn.

Ni ddefnyddir gwirwyr tymheredd bob amser ar yr esgyll i wirio tymheredd bwyd ar y cownteri arlwyo, yn rhannol oherwydd bod y batris yn cael eu dwyn. Nid yw dillad gwyn ar gall bob amser i’r dynion sy’n gweini bwyd. Yn achlysurol, ni ddarparwyd ar gyfer y rhai sydd â gofynion bwyd arbennig am resymau crefyddol ac iechyd, ac roedd hyn yn arbennig o arwyddocaol mewn un achos. Ar ddiwrnod cyntaf Ramadan, ni chafodd bwyd ei weini cyn y wawr, er bod problemau a gafwyd ar y diwrnod cyntaf wedi'u datrys yn gyflym.

Dim ond 5% o geisiadau i’r Bwrdd Monitro Annibynnol sy’n ymwneud â llety, ac mae’r rhain yn aml yn fater o bryder gyda thegelli a gliniaduron. Mae 2% arall yn ymwneud â bwyd, yn bennaf ynglŷn â’i ansawdd ac anghenion dietegol unigol.

## 5.2 Gwahanu

Mae’r cyfleusterau ar Ogwen, yr Uned Gofal a Gwahanu (CSU), yn lân ac mewn cyflwr da ar y cyfan, er bod adroddiadau am atgyweiriadau araf i ffenestri a phroblemau achlysurol gyda’r dŵr. O’n harsylwadau, mae’r staff yn brofiadol, yn

ddyngarol ac yn ymwybodol o anghenion carcharorion, y mae gan lawer ohonynt ymddygiad heriol. Mae Ogwen yn aml yn llawn ac weithiau ni ellir darparu llety i garcharorion, felly gwneir trefniadau priodol ar yr esgyll preswyl arferol.

Mae rhai carcharorion ag anghenion cymhleth wedi'u trosglwyddo i unedau diogel sy'n fwy priodol iddyn nhw, er ei bod yn ymddangos bod oediadau yn parhau.

Mae ein gwaith monitro adolygiadau Trefn Dda neu Ddisgyblaeth wedi dangos eu bod yn amserol, bod Llywodraethwyr a swyddogion yn deall pob carcharor, a'u bod yn ceisio eu trosglwyddo i esgyll arferol heb oedi diangen. Mae'r cyfnod gwahanu cychwynnol ar gyfer carcharorion sy'n cael eu symud i uned Ogwen ar ôl honiad o ymosod ar staff yn rhagdybio gwahaniad o 14 diwrnod, yn amodol ar ganlyniadau dyfarniad. Fodd bynnag, mae ein gwaith monitro yn dangos bod carcharorion o'r fath yn cael eu hadolygu eto ar ôl y dyfarniad ac y gellir eu dychwelyd yn aml i'r llety arferol cyn diwedd y cyfnod 14 diwrnod.

Mae gwaith monitro a dyfarniadau wedi dangos bod Llywodraethwyr yn cymryd gofal i ddeall y dystiolaeth a gwrando ar y carcharor cyn gwneud penderfyniad, ac mae'r penderfyniadau wedi'u dylunio i gymell ymddygiad gwell, atal ail-ddigwyddiad a delio ag unrhyw faterion y gallai'r carcharorion eu nodi sydd wedi cyfrannu at yr ymddygiad. Er gwaethaf rhai gwelliannau i waith achos cyn dyfarniadau, mae achosion yn parhau i gael eu gwrthod oherwydd gwaith paratoi annigonol.

Er gwaethaf ymdrechion Llywodraethwyr a swyddogion, mae rhai carcharorion yn gwrthod dychwelyd o Ogwen i'r esgyll preswyl am eu bod yn teimlo'n fwy diogel a bod yn well ganddynt yr amgylchedd tawelach; gall hyn arwain at arosiadau hir. Mae'r drefn ar gyfer y carcharorion hyn yn cael ei gwneud yn fwy sylfaenol i'w cymell i adael. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ac mae'r nifer yn Ogwen wedi lleihau o ganlyniad. Mae'r carchar yn y broses o wahardd fepio ar Ogwen.

### 5.3 Perthnasoedd staff a charcharorion, gweithwyr allweddol

Dylid dyrannu swyddog i bob carcharor sy'n weithiwr allweddol ymroddedig iddynt, y gallent feithrin perthynas gyda hwy. Nid yw'r fenter gweithiwr allweddol newydd a gyflwynwyd y llynedd wedi bod mor llwyddiannus â'r gobaith, oherwydd diffyg amser wedi'i ddyrannu ar gyfer hyn.
Mae carcharorion yn dweud nad ydynt yn gwybod pwy yw eu gweithiwr allweddol ac mae'r carchar yn cydnabod nad yw proffil presennol y carchar (yr amserlen ddyddiol, i bob pwrpas) yn dyrannu'r amser angenrheidiol. Mae proses ailbroffilio ar y gweill ar hyn o bryd, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r broblem. Pan fydd perthnasoedd wedi dirywio, mae gwaith monitro'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn dangos bod Llywodraethwyr ac uwch swyddogion yn ceisio deall a datrys materion.
Cynhelir sgyrsiau cyson rhwng carcharorion a staff, ond nid oes amser wedi'i neilltuo yn y diwrnod i ysgrifennu nodiadau. Mae cymorth gweinyddol wedi'i symud o'r ganolfan fusnes i bob un o'r tai, felly dylai hyn greu manteision wrth ddelio â chwynion, gliniaduron, arian a ffonau.

O'n harsylwadau ni, mae'r perthnasoedd rhwng staff a charcharorion yn dda ar y cyfan, ond mae gwendidau mewn rhai grwpiau o swyddogion. Er enghraifft, gall rhai aelodau o staff llai profiadol ymateb yn fwy adweithiol ac yn llai pragmatig mewn sefyllfaoedd heriol. Gall hyn achosi anawsterau i garcharorion a staff eraill. Mae perthnasoedd gyda gweithwyr allweddol o dan bwysau yn achlysurol ac mae problemau yn codi pan na ellir cyflawni disgwyliadau afrealistig neu pan fydd gweithwyr allweddol wedi'u gorymestyn oherwydd prinder staff a llwythi gwaith uchel.

Mae'r pennaeth preswyl a benodwyd yn ddiweddar yn gweithredu dull gweithredu BASICS, sy'n esbonio'n glir i staff a charcharorion bod polisïau a gweithdrefnau yn

bodoli am reswm, bod angen eu hesbonio'n glir a'u bod yn ategu diogelwch carcharorion, staff a'r carchar cyfan.

Yn ein barn ni, mae bwlch gwybodaeth enfawr yn parhau yn nealltwriaeth carcharorion sy’n niwrowahanol a sut i’w cefnogi a’u rheoli mewn ffordd fwy hyblyg. Mae cynlluniau da ar waith ar gyfer yr achosion mwyaf acíwt. Mae’r broblem yn bodoli gyda’r achosion llai acíwt, lle mae dynion yn rheoli eu sefyllfaoedd eu hunain. Mae hyfforddiant a chefnogaeth gydfuddiannol rhwng llety/diogelwch eiddo a llety/diogelwch personol, ochr yn ochr â mwy o hyfforddiant uwchsgilio anffurfiol staff. Fodd bynnag, mae’r carchar yn ymwybodol o hyn ac maent yn mynd i’r afael â hyn (gweler 5.4 isod).

Mae'n ymddangos bod cyngor y carcharorion yn rhedeg yn dda ac mae bellach yn cael ei atgyfnerthu gan fforymau carcharorion misol ar ardaloedd preswyl. Mae hyn yn tynnu rhywfaint o'r manylion o'r cyngor fel bod mwy o ffocws ar y materion ehangach.

## 5.4 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae’r carchar yn monitro materion sy’n gysylltiedig ag amrywiaeth a chydraddoldeb yn weithredol a gofynnir am adborth gan garcharorion o’u profiadau. Mae darpariaeth ar gael i’r ystod o grwpiau gwarchodedig, gan gynnwys carcharorion Sipsiwn, Romani a Theithwyr (GRT), carcharorion o wledydd eraill a charcharorion gwrywaidd sy’n uniaethu fel menyw. Gall carcharorion sy’n uniaethu fel menyw gael mynediad i'r unig glinig ailbennu rhywedd yng Nghymru, ond gall y pellter i'w leoliad yn ne Cymru fod yn rhwystr.

Mae sicrhau bod carcharorion sy’n siarad Cymraeg yn gallu defnyddio eu hiaith eu hunain yn hytrach na gorfod cyfieithu yn Saesneg yn flaenoriaeth i’r carchar. Mae staff sy’n gallu siarad Cymraeg yn cael eu nodi i ddefnyddio eu sgiliau. Mae comisiynydd y Gymraeg yn monitro cynnydd. Anogir staff sy’n siarad Cymraeg i ddefnyddio eu sgiliau, mae dosbarthiadau ar gyfer dysgwyr Cymraeg, ac mae’r carchar yn awyddus i benodi mwy o staff Cymraeg eu hiaith. Mae cyfarpar wedi’u gosod yn ddiweddar i sicrhau bod sianelau teledu ar radio ar gael yn Gymraeg.

Cydnabyddir niwroamrywiaeth fwyfwy a darperir ar ei gyfer. Cynhaliwyd wythnos niwroamrywiaeth ym mis Mawrth 2026 ac mae hyfforddiant a datblygiad staff yn parhau.

Mae mwy o garcharorion agored i niwed wedi’u trosglwyddo gan y Gwasanaeth Carchar i’r Berwyn felly mae’r nifer o esgyll carcharorion agored i niwed wedi dyblu i bedwar o’r cyfanswm o 24 adain. Mae’r cynnydd yn y niferoedd yn creu heriau yn nhermau symudiadau o amgylch y carchar a’r gallu i gael mynediad at yr ystod lawn o weithdai a hyfforddiant; mae hyn yn lleihau'r tebygolrwydd o gael cyflogaeth ar ôl cael eich rhyddhau.

Mae’r Bwrdd Monitro Annibynnol yn derbyn ceisiadau ynglŷn â materion cydraddoldeb, ond mae’r rhain yn gymharol brin, gan gynrychioli 1.5% o’r holl geisiadau – ac yn honni gwahaniaethu yn bennaf.

## 5.5 Ffydd a chefnogaeth fugeiliol

Mae'r gaplaniaeth yn weithgar yn y Berwyn ac yn cefnogi carcharorion o bob ffydd a’r rhai heb ffydd. Cynhelir gwasanaethau rheolaidd, gan gynnwys gwasanaethau ar wahân i garcharorion agored i niwed.

Mae tri aelod o staff llawn amser ac wyth arall rhan amser, ynghyd â deg gwirfoddolwr. Mae'r tîm wedi bod heb gaplan rheoli am lawer o'r flwyddyn. Mae

gwaith monitro wedi dangos bod yr holl gaplaniaid a staff yn wybodus ac yn ymatebol i anghenion carcharorion.

Mae ein harsylwadau yn dangos bod cymorth yn cael ei gynnig i bob carcharor wrth gyrraedd. Mae'r rhai â pherthnasoedd agos sy'n agos at farwolaeth yn derbyn cymorth penodol, gydag ymweliadau allanol yn cael eu hwyluso, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae swyddogaethau eraill yn cael eu cefnogi hefyd, er enghraifft cynorthwyo yn y gegin drwy ddarparu gwybodaeth am anghenion deietegol a chefnogi gwyliau crefyddol neu ofynion diwylliannol.

Mae gwrandawyr yn garcharorion sy'n cefnogi carcharorion eraill mewn cyfnodau o ofid. Cynhelir hyfforddiant i Wrandawyr yn y gaplaniaeth ac mae'n cael ei redeg gan y Samariaid o ganghennau lleol.
Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i gefnogi Gwrandawyr, sy'n cael eu cynnal unwaith eto gan y Samariaid.

## 5.6 Cynlluniau cymhelliant

Mae cyfanswm o 7% o geisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn ymwneud â disgyblaeth ac rydym yn derbyn ceisiadau yn rheolaidd am y polisi cymhellion (IP) a newidiadau i statws carcharorion.

Dyluniwyd y Polisi Cymhelliant i reoli ymddygiad, tra bod dyfarniadau'n penderfynu ar gosbau am ymddygiad penodol. Yn ein barn ni, nid yw hyn bob amser yn cael ei egluro'n glir i garcharorion, sy'n credu y bydd gwrthod cyhuddiad yn arwain yn awtomatig at adfer statws, ond efallai na fydd eu hymddygiad cyffredinol yn cyfiawnhau cam o'r fath. Caiff data am y Polisi Cymhelliant ei fonitro yn y cyfarfod cydraddoldeb misol.

Mae'r Bwrdd yn poeni nad oes unrhyw gymhelliant gwirioneddol i anelu at y statws uwch (uchaf), oherwydd nid yw'r gwelliannau o'r lefel safonol (ganol) yn ddigon sylweddol. Cynigir adolygu hyn yn ddiweddarach yn 2026. Mae'r carchar yn ystyried llety gwell i garcharorion statws uwch, er nad yw dyluniad yr adeilad yn hwyluso symudiad i gymuned gydag, er enghraifft, opsiynau hunanarlwyo. Yn y cyfamser, gallai esgyll uwch ddatblygu trefn wahanol a mwy o ymddiriedaeth yn y dynion.

## 5.7 Cwynion

Ym marn y Bwrdd, fe weithredodd y Llywodraethwyr yn effeithiol i adfer methiant y system gwyno nad oeddynt yn gyfrinachol, a adroddwyd y llynedd a'u bod yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o gwynion heb eu hateb. Bu'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn monitro perfformiad y system gwyno yn fanwl yn ystod misoedd yr haf a chanfuwyd bod cwynion yn cael eu hystyried o ddifri, a bod yr ymatebion yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd a'u bod yn cael eu trin mewn ffordd amserol. Fodd bynnag, ar ddiwedd 2025, fe arweiniodd newidiadau staff at fethiant y system unwaith eto, ac ni dderbyniodd cwynion ymatebion amserol, a arweiniodd at ôl-groniad arall. Arweiniodd hyn hefyd at fwy o geisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol ynglŷn â chwynion heb eu hateb ac mae ein gwaith monitro yn dangos eu bod yn deg. Mae hyn yn achosi llawer o rwystredigaeth i'r carcharorion, yn arbennig pan fyddant wedi'u cynghori i gyflwyno ffurflen Comp 1 (cwyn arferol) i wneud cais syml, nad yw'n ddadleuol.

Mae'r diffyg mynediad dibynadwy at gofnodion cwynion, oherwydd newidiadau i ganiatadau TG, wedi bod yn broblem reolaidd i'r Bwrdd Monitro Annibynnol drwy lawer o'r cyfnod adrodd ac mae'n parhau i fod yn broblem. Y gobaith yw y bydd sianelau newydd ar Teams yn mynd i'r afael â hyn, ac a fydd hefyd yn galluogi i gymorth TG gael ei ddarparu o'r carchar ei hun yn hytrach na dibynnu ar ddesg

gymorth o bell.

Mae’r Bwrdd Monitro Annibynnol hefyd yn monitro’r system Comp 2 yn agos, sydd ar gyfer cwynion difrifol a chyfrinachol. Dangosodd hyn eu bod yn cael eu cymryd o ddifri. Mae cwynion a dderbynnir i system Comp 2 yn cael eu trin yn dda ac mae'r atebion yn fanwl a phriodol; mae’r gweddill yn cael eu trosglwyddo’n uniongyrchol i’r system gwyno arferol er mwyn eu trin yn fwy cyflym, er bod hyn yn mynd yn groes i’r canllawiau.

Dylai ffurflenni cwyno fod ar gael i garcharorion ar bob adain mewn dalwyr wrth ymyl y blychau cwynion. Rydym wedi canfod bod y dalwyr yn wag ar gymaint â 50% o'n rowndiau i'r 24 adain breswyl. Nid yw'r cynnig gan staff i gael un o'r swyddfa yn cael ei groesawu gan garcharorion, oherwydd nad ydyn nhw eisiau datgelu i swyddogion eu bod nhw eisiau cyflwyno cwyn.

Mae nifer y ceisiadau i'r Bwrdd wedi cynyddu 150%, i 559, o 223 yn y flwyddyn flaenorol; dwy flynedd yn ôl, derbyniwyd 462 o geisiadau. Roedd cynnydd sylweddol yn nifer y pryderon ynglŷn â pherthnasoedd staff a bwlio (cynnydd o 270%), rheoli dedfrydau (160%) a disgyblaeth (180%). Mae rhai carcharorion yn cyflwyno ceisiadau'n aml. Ar ôl oedi hir, gosododd y contractwr cynnal a chadw, Amey, gloeon cyffredinol ar flychau'r Bwrdd Monitro Annibynnol fel mai dim ond un allwedd sydd ei hangen bellach yn lle 25 (tri thŷ sy'n cynnwys cyfanswm o 24 adain, ynghyd â'r Uned Gwahanu a Gofal).

### 5.8 Eiddo

Mae'r Bwrdd yn derbyn llif reolaidd o geisiadau ynglŷn ag eiddo. Yn y flwyddyn adrodd hon, roedd 35 yn ymwneud â throsglwyddiadau o fewn y Berwyn wrth i garcharorion newid celloedd. Y broses yw y dylid gosod eiddo mewn bag a bod cynnwys y bag yn cael ei ardystio gan swyddog a'r carcharor. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn derbyn ceisiadau ynglŷn ag eitemau yn mynd ar goll yn ystod y broses hon. Gellir esbonio'r cynnydd yn nifer y ceisiadau, o 20 yn y flwyddyn flaenorol i 35 eleni, oherwydd y trosiant uwch o garcharorion yn y Berwyn ac nid yw'n adlewyrchu dirywiad perthnasol mewn perfformiad.

Rydym yn ymwybodol, pan fydd carcharorion yn trosglwyddo yn y Berwyn, y gall eu cantîn (eitemau y gellir eu harchebu a thalu amdanynt i ategu bwyd, cyfarpar a dillad carcharor) fynd ar goll weithiau ac na ellir dod o hyd iddynt. Mae'r system gwyno yn mynd i'r afael â hyn ac mae'r carchar yn rhoi ad-daliadau pan ganfyddir na chafodd y cantîn ei ddarparu i'r carcharor. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd oedi gyda thaliad, sy'n broblem, hyd yn oed pan fydd y symiau o arian yn fach, oherwydd gallai gynrychioli swm sylweddol yn amgylchiadau'r carcharor.

Hefyd, derbyniodd y Bwrdd Monitro Annibynnol 21 o geisiadau ynglŷn ag eiddo wedi'i drosglwyddo o garchardai eraill, dwbl y nifer o'r flwyddyn flaenorol. Unwaith eto, gellir priodoli hyn i'r cynnydd sylweddol yn nifer y trosglwyddiadau. Mae eiddo yn cael ei restru a'i roi mewn bagiau, y mae rhai ohonynt yn teithio gyda'r carcharor a rhai sy'n teithio ar wahân. Pan fydd y carcharor yn cyrraedd y dderbynfa, mae'r eiddo sydd wedi teithio gyda hwy yn cael ei wirio gan y carcharor a hefyd gan staff y dderbynfa. Nid yw eiddo sy'n teithio ar wahân yn cael ei agor ym mhresenoldeb y carcharor. Bu achosion o honiadau nad yw eiddo sydd wedi teithio ar wahân wedi cyrraedd neu ei fod yn anghyflawn. Yn achlysurol, bu'n rhaid cysylltu â'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn y carchar anfon er mwyn helpu i ddatrys hyn. Gall yr eiddo coll fod yn bwysig iawn, er enghraifft papurau cyfreithiol neu ddogfennaeth dull adnabod.

Bu achlysuron hefyd pan nad yw cyllid wedi'i drosglwyddo neu fod swm anghywir wedi anfon pan fydd carcharor wedi symud i'r Berwyn, ac yn aml mae oedi sylweddol gyda'r trosglwyddiadau hyn.

# 6. Iechyd a lles

## 6.1 Gofal iechyd cyffredinol

Mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu ar y safle gan y sefydliad GIG lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r meddyg teulu yn adolygu pob meddyginiaeth ac mae meddyginiaethau yn cael eu hoptimeiddio i'r driniaeth glinigol fwyaf priodol. Mae pob dyn yn cael eu sgrinio ar y noson gyntaf ac mae'r meddyg yn cynnal adolygiad o'u meddyginiaeth. Mae meddyginiaethau'n cael eu darparu yn ôl yr angen, felly nid oes unrhyw oedi ar y penwythnos. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod nyrsys ar gael pan fydd carcharorion yn cyrraedd. Mae hyn yn berthnasol i drosglwyddiadau o garchardai eraill, yn ogystal â charcharorion sy'n cyrraedd o'r llysoedd.

Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol wedi'u hysbysu nad yw ciwiau meddyginiaeth bob amser yn cael eu rheoli'n ddigon da gan swyddogion; gall hyn arwain at faterion ymddygiad, sy'n achosi i'r feddyginiaeth gael ei hatal. Hefyd, nid yw meddyginiaeth bob amser yn cael ei darparu'n amserol i garcharorion agored i niwed cyn symudiadau'r bore.

Mae yna achosion rheolaidd o garcharorion ddim yn mynychu eu hapwyntiadau gofal iechyd. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn nodi mai un o'r problemau yw nad yw carcharorion bob amser yn cael eu cludo i apwyntiadau ar amser. Yn ogystal, nid yw staff gofal iechyd yn ymwybodol yn gyson pryd mae carcharorion agored i niwed yn aros i gael eu gweld, gan arwain at golli apwyntiadau.

Mae gwasanaethau meddygol ar y safle yn mynychu argyfyngau pan fydd carcharorion yn sâl, yn aml oherwydd sylweddau seicoweithredol. O'n harsylwadau a data a gasglwyd, mae'r ymatebion yn amserol ac wedi'u hategu gan ambiwlansiau pan fydd eu hangen. Mae'r nifer o ddigwyddiadau brys ('cod glas') wedi cynyddu i'r pwynt y mae carcharorion yn cael eu dychwelyd i'w celloedd pan fydd tri neu fwy yn digwydd yr un pryd, oherwydd y pwysau ar staff.

Mae Berwyn wedi bod yn treialu cynllun parafeddygon ers blwyddyn. Mae tri pharafeddyg wedi'u lleoli yn y Berwyn a gallant ymateb yn gyflym i achosion brys. Mae hyn yn lleihau'r angen i alw am ambiwlans ac mae'n galluogi ymateb cyflymach gan ambiwlans os bydd angen galw am un.

Mae cynrychiolwyr gofal iechyd wedi bod yn bresennol ym mhob un o'r adolygiadau gwahanu a arsylwyd gan y Bwrdd Monitro Annibynnol.

## 6.2 Gofal iechyd corfforol

O'n harsylwadau, mae'r ddarpariaeth gofal iechyd corfforol yn dda ar y cyfan. Mae'r galw am wasanaethau wedi parhau i gynyddu yn 2025, oherwydd y boblogaeth uchel yn y carchar, y cynnydd sylweddol yn nhrosiant carcharorion, cyffredinolrwydd sylweddau anghyfreithlon a phroblemau iechyd meddwl, a chymhlethdod cyffredinol yr angen mewn nifer cynyddol o garcharorion. Mae trosglwyddo carcharorion o Loegr i'r Berwyn yng Nghymru yn cynyddu llwythi gwaith oherwydd y gwahaniaethau yn y ffordd y mae'r GIG yn gweithredu yn Lloegr ac yng Nghymru. Mae'r trosglwyddiadau hyn yn arwain at amharu ar apwyntiadau allanol trwy gynyddu amseroedd aros am resymau y tu hwnt i reolaeth y carchar, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr neu'r carcharor. Rhaid i garcharor a drosglwyddir i'r Berwyn o Loegr ac sy'n aros am apwyntiad ysbyty allanol yn Lloegr gael ei gludo yn ôl i Loegr ar gyfer yr apwyntiad hwnnw neu ymuno â gwaelod y rhestr aros yng

Nghymru.

Mae’r 160 aelod o staff gofal iechyd yn darparu ystod eang o wasanaethau; mae’r proffesiynau yn cynnwys meddygon, nyrsys, deintyddion, optegwyr a gweithwyr proffesiynol eraill perthynol i iechyd.

Mae diffyg system aerdymheru yn y feddygfa yn amharu ar y ddarpariaeth ddeintyddol yn ystod yr haf; pan fydd y tymheredd yn uwch na 27°C, rhaid i'r feddygfa gau. Mae hyn wedi bod yn broblem hysbys ers i’r carchar agor, er mai dim ond yn ddiweddar y dyrannwyd cyllid i fynd i’r afael â hyn (disgwylir i’r gwaith gael ei wneud ym mis Mai 2026).

Mae gan garcharorion agored i niwed ardal aros ar wahân; nid yw swyddogion sy'n hebrwng carcharorion agored i niwed bob amser yn hysbysu derbynyddion y GIG, sydd wedi golygu eu bod yn colli eu hapwyntiadau.

Pan rydym wedi gallu arsylwi, mae'r tîm gofal iechyd ar y safle yn ymateb yn brydlon i argyfyngau, ac mae ambiwlansiau yn mynychu pan fo angen. Mae'r angen am alwadau ambiwlans yn lleihau o ganlyniad i bresenoldeb parafeddygon ar y safle.

Mae amseroedd aros meddygon teulu rhwng pedair a chwe wythnos ac maent yn cael eu lleihau trwy benodi dau feddyg teulu arall. Caiff ceisiadau brys eu brysbennu gan nyrsys a'r ymarferwyr parafeddygol ar y safle. Mae carcharorion yn gofyn am apwyntiadau gan ddefnyddio'r system trefnu apwyntiadau ar-lein ar eu gliniaduron, ond mae canfyddiad nad yw'r system hon yn gweithio cystal ag y gallai.

### 6.3 Iechyd meddwl

Penodwyd rheolwr iechyd meddwl newydd yn 2025 ac mae'r staffio bron yn gyflawn. Fodd bynnag, mae pwysau ynghylch gorfod aros yn hir am welyau iechyd meddwl yn creu straen i'r carcharorion a'r staff. Mae cyflyrau carcharorion yn gwaethygu ac mae staff yn gorfod rheoli carcharorion gyda salwch cynyddol ddifrifol. Yn absenoldeb trosglwyddiad amserol i lety iechyd meddwl diogel priodol, yn achlysurol mae angen eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer asesiad neu driniaeth orfodol ar y pwynt rhyddhau. Mae'r broblem hon yn arbennig o acíwt ar gyfer carcharorion o Loegr, sydd ag amser aros o tua wyth mis ar gyfartaledd. Nid yw llysoedd bob amser yn defnyddio adroddiadau seiciatrig sydd ar gael wrth ystyried 'gorchmynion ysbyty' (a fyddai'n caniatáu i garcharor gael ei gludo'n uniongyrchol i gael gofal mewn ysbyty yn hytrach na'u cadw yn y ddalfa), a phan fydd dynion yn cael eu dedfrydu i garchar, nid yw'r adroddiadau hyn bob amser yn cael eu trosglwyddo gyda hwy. Mae hyn yn creu anfantais i staff iechyd meddwl o ran rheoli triniaeth.

Mae gwaith monitro'r Bwrdd Monitro Annibynnol wedi canfod nad yw gwaith papur ACCT (Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm) bob amser mewn trefn dda a gall ffeiliau gynnwys dogfennau rhydd a heb eu dyddio. Mae carcharorion sy'n profi iechyd meddwl gwael yn aml yn cael eu harsylwi mewn dyfarniadau ac adolygiadau gwahanu ac mae'r Llywodraethwyr yn cydnabod hyn.

Mae'r gwasanaeth seicoleg glinigol yn cael ei redeg gan y GIG ac mae'n cefnogi dynion â materion iechyd meddwl.

Mae'r gwasanaeth seicoleg fforensig yn cael ei redeg gan y carchar ac mae'n gyfrifol am gynnal asesiadau risg a darparu cyrsiau. Mae'r hen gwrs Kaizen, a oedd yn mynd i'r afael ag ymddygiad troseddu, wedi'i ddisodli gan Building Choices, gyda grwpiau o wyth o ddynion yn cymryd rhan mewn rhaglen o waith un i un a grŵp. Mae graddfa trosiant ym mhoblogaeth y carchar wedi creu heriau gwirioneddol yn y maes hwn. Crëwyd y cwrs i alinio â dyddiad arwyddocaol (naill ai rhyddhau neu barôl), gyda'r dyddiadau rhyddhau yn cael eu blaenoriaethu. Fodd bynnag, mae'r nifer uchel o garcharorion newydd yn cyrraedd yn golygu y gall rhai gael eu blaenoriaethu ar gyfer lleoedd, sy'n golygu bod dynion sydd eisoes wedi'u clustnodi ar gyfer cwrs yn dychwelyd i'r rhestr aros. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol wedi derbyn cwynion am hyn.

Mae gan y Gwasanaethau Seicolegol Fforensig (FPS), HMPPS yng Nghymru dîm yng ngharchar y Berwyn. Maent yn gyfrifol am gwblhau asesiadau risg seicolegol yn ogystal â rheoli triniaeth a chymorth/darpariaeth glinigol ar gyfer y gyfres newydd o raglenni ymddygiad

troseddu achrededig, Building Choices, sy'n cael ei darparu gan dîm Rhaglenni'r carchar. Mae grwpiau o wyth o ddynion yn cymryd rhan ym mhob grŵp, sy'n cynnwys sesiynau grŵp a chymorth un i un. Mae graddfa'r trosiant ym mhoblogaeth y carchar wedi creu heriau gwirioneddol yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae'r nifer uchel o garcharorion newydd sy'n cyrraedd y carchar yn golygu y gall rhai gael eu blaenoriaethu ar gyfer lleoedd, sy'n golygu bod dynion sydd eisoes wedi'u clustnodi ar gyfer cwrs yn dychwelyd i'r rhestr aros. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol wedi derbyn cwynion am hyn.

Mae'r cynnydd yn nifer y carcharorion agored i niwed yn ei gwneud yn anodd i'r timau Rhaglenni a Seicoleg ddod o hyd i ofod ar wahân i'r boblogaeth gyffredinol ar gyfer darparu cyrsiau.

### 6.4 Gofal cymdeithasol

Mae Cyngor Bwrdeistref Wrecsam yn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i'r carchar. Mae'r tîm yn cynnwys rheolwr dros dro, dau weithiwr cymdeithasol ac un asesydd gofal cymdeithasol. Mae'r dynion yn cael eu sgrinio wrth gyrraedd ac mae trefniadau gofal sy'n bodoli eisoes yn cael eu hymestyn fel y bo'n briodol. Mae gofal cymdeithasol da, corfforol a meddyliol, yn helpu i osgoi gorfod mynd i'r ysbyty. Gall dynion gyfeirio eu hunain ar gyfer asesiad, ac maent yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu hanghenion eu hunain er mwyn osgoi dibyniaeth. Mae tri phecyn gofal cymdeithasol ar gael, gyda dau arall yn destun asesiad. Mae rhywfaint o ofal anffurfiol yn cael ei ddarparu gan gyfeillion adain (e.e. ar gyfer carcharorion ag anawsterau symudedd).

Mae yna ddynion yn y Berwyn sy'n byw gyda dementia sy'n parhau i allu byw bywydau arferol fwy neu lai. Pan fydd angen asesu dirywiad sylweddol, mae proses hir o gasglu tystiolaeth i gadarnhau eu bod wirioneddol yn colli eu cof.

### 6.5 Amser allan o'r gell, trefn

Mae hwn yn faes y gwnaed llawer o gwynion amdano i'r Bwrdd Monitro Annibynnol. Fel arfer mae gweithwyr rhan amser yn derbyn un awr o awyr iach ac un awr o gyswllt cymdeithasol sydd wedi'u dyrannu iddynt. Fodd bynnag, yn aml iawn nid yw gweithwyr llawn amser yn derbyn hyn oherwydd cyfyngiadau'r drefn a phrinder staff. Gall hyn gyfyngu eu gallu i ddefnyddio cyfleusterau fel ceginau'r esgyll hefyd.

Nid yw carcharorion sydd eisiau gweithio bob amser yn gallu ei sicrhau ac nid ydynt bob amser yn deall sut mae carcharorion yn cael eu dewis a'u haseinio ar gyfer swyddi yn y carchar. Ar y llaw arall, nid yw llawer o ddynion yn chwilio neu'n derbyn cyfleoedd ac mae'n bosibl eu bod wedi'u cloi yn eu celloedd am gyfnodau hwy o gymharu ag eraill o ganlyniad i hynny.

Gall prinder staff, cyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddiant y carchar darfu ar y drefn (h.y. yr amserlen ddyddiol arferol).

### 6.6 Adsefydlu ar ôl camddefnyddio cyffuriau ac alcohol

Mae hyn yn flaenoriaeth allweddol i'r carchar. Mae sylweddau anghyfreithlon yn ysgogi dyledion a thrais ac maent yn un o brif achosion galwadau argyfwng gofal iechyd.

Mae dynion yn cael eu sgrinio yn y dderbynfa wrth gyrraedd. Os ydynt yn cael prawf positif yn unig ar gyfer y feddyginiaeth a ragnodwyd iddynt, parheir gyda'r rhain. Fodd bynnag, os ydynt yn cael prawf positif am gyffuriau ychwanegol, nad ydynt wedi'u rhagnodi, gellir atal pob meddyginiaeth. Gall hyn fod yn anodd i ddynion ei ddeall, ac mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn derbyn cwynion am oedi wrth dderbyn meddyginiaeth a ragnodwyd, er ei bod yn cael ei hadfer maes o law, pan fydd hynny'n briodol.

Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol wedi nodi bod y lefel o ddigwyddiadau o garcharorion o dan ddylanwad yn amrywio, a'i bod yn isel ar hyn o bryd (Chwefror 2026), er y bu cynnydd sydyn ym mis Ebrill/Mai 2025. Mae'r gwasanaeth camddefnyddio cyffuriau o'r farn y gallai'r niferoedd a gofnodwyd fod yn gamarweiniol. Mae'r rhai sy'n debygol o gael eu cofnodi yn fwy agored i niwed, yn defnyddio a/neu'n pasio allan yn ystod y dydd. Mae eraill yn defnyddio gyda'r nos, ar sail hamdden ac i'w helpu i gysgu, ac maent yn llai tebygol o gael eu harsylwi neu eu profi.

Nodwyd hefyd bod rhaglenni'n cael eu darparu (Alcoholics Anonymous a Narcotics Anonymous) er mwyn mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ymhlith carcharorion ac i gefnogi eu teuluoedd cyn iddynt gael eu rhyddhau.

Sefydlwyd grŵp lleihau niwed yn ystod 2024. Mae unrhyw un y nodir eu bod o dan ddylanwad yn cael eu gweld gan y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau y diwrnod canlynol ac yn cael eu gwahodd i'r grŵp o fewn saith niwrnod. Ar gyfartaledd, mae 120 o ddynion yr wythnos yn cael eu gwahodd i grwpiau. Mae'r nifer o garcharorion agored i niwed yn y grwpiau hyn wedi dyblu'n ddiweddar, ond ystyrir bod diflastod yn gyfrifol am rywfaint o hynny.

### 6.7 Sgiliau meddal

Mae'r ganolfan les yn parhau i ddarparu ystod o gyrsiau, profiadau, cymorth a hyfforddiant. Mae galw mawr am y cyrsiau ac mae rhestrau aros i gael lle arnynt. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod rhaglen newydd wedi dechrau yn gynnar yn 2026, drwy Novus Cambria (y darparwr addysg a sgiliau), i ddarparu cymorth pwrpasol i ddynion yn y cyfnod ailsefydlu, ochr yn ochr â mentor, i ddatblygu sgiliau cyflogaeth ar gyfer mathau penodol o swyddi. Mae hyn yn cynnwys ysgrifennu CV, llythyrau datgelu, rheoli arian, technegau cyfweliad, cydnabod cymwysterau ac ymddygiad yn y gweithle.

Mae'r carchar hefyd wedi cyflwyno rhaglen o'r enw Stoic, sy'n cael ei rhedeg gan yr hyfforddwyr addysg gorfforol yn y gampfa. Yn y Berwyn, dechreuodd y cwrs cyntaf ddiwedd 2025. Mae'r carcharorion yn gwneud cais llafar i ymuno â'r cwrs pedair wythnos ac nid oes angen iddyn nhw wneud cais mewn ffordd arall. Gallent fod â statws sylfaenol, safonol neu uwch. Ar ddiwedd y cwrs, mae'r Llywodraethwr yn cyflwyno tystysgrifau cwblhau.

Mae enw'r cwrs yn cyfeirio at Athronwyr Stoicaidd Gwlad Groeg hynafol ac mae'n adlewyrchu ei ffocws - datblygu gwydnwch mewn sefyllfaoedd negyddol neu ddigalon. Mae'n cyfuno addysgu a thrafodaeth, gan gwmpasu pynciau fel meddwl cadarnhaol a rheoli teimladau o ddicter.

# 7. Cynnydd ac ailsefydlu

## 7.1 Addysg, y llyfrgell

Mae’r ddarpariaeth addysg yn cael ei darparu gan Novus Cambria, gan ddefnyddio 51 aelod o staff sy’n gyfwerth ag amser llawn sy’n darparu 358 gofod yn y boreau a 346 yn y prynhawn. Bu’n rhaid ail-drefnu’r cwricwlwm oherwydd bod y nifer o garcharorion agored i niwed wedi dyblu, gan ehangu’r ddarpariaeth ar gyfer y grŵp hwn a lleihau’r effaith ar y boblogaeth gyffredinol yr un pryd.

Mae arsylwadau’r Bwrdd Monitro Annibynnol o’r adran addysg yn dangos bod yr amgylchedd ar gyfer dysgu yn groesawgar ac yn ysgogol. Yn aml, mae’r rhai sy’n bresennol yn profi heriau emosiynol amrywiol a gall y rhain gael rywfaint o effaith ar y dysgu. Mae absenoldeb bellach yn cael ei adrodd yn ôl i'r tai; felly, mae unrhyw apwyntiadau, salwch ac absenoldeb yn hysbys a gellir eu dilysu. Fodd bynnag, mae ymddangosiadau yn y llys ac apwyntiadau iechyd yn cael effaith andwyol ar bresenoldeb.

Mae’n ymddangos bod y cam sefydlu yn cael ei gynnal yn ddidrafferth ac fel arfer mae’n cael ei ddarparu i 14 o ddynion (bore a phrynhawn) ar ôl canfod lefelau llythrennedd a rhifedd cyn cyfeirio at gyrsiau addas. Mae ffocws ar sgiliau ar gyfer ailsefydlu.

Mae darpariaeth dysgu yn y gell yn cael ei darparu hefyd gan Ways2learn, menter hyblyg dysgu yn y gell a ddatblygwyd gan PeoplePlus mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bryste. Gall carcharorion gael mynediad at y rhaglen drwy eu teledu ddwywaith y dydd.

Mae'r gwasanaeth llyfrgell, a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac sy'n cyflogi pedwar aelod o staff, yn parhau i fod yn adnodd a ddefnyddir yn helaeth gan garcharorion, gyda mynediad wythnosol. Yn ogystal, mae gwasanaeth troli ar gyfer llyfrau y gwneir cais amdanynt o restr lyfrau ar eu gliniaduron a ddosberthir gan swyddog band coch (gweithiwr cymorth cyfoedion carcharorion dibynadwy). Ym mis Chwefror 2026, dosbarthwyd 1,170 o lyfrau a bu 754 o ymweliadau.

Gall carcharorion agored i niwed gael amseroedd mynediad gwahanol ac mae’n ymddangos mai hwy yw prif ddefnyddwyr y llyfrgell. Mae testunau cyfeirio cyfreithiol (e.e. *Archbold: Criminal Pleading, Evidence and Practice* and *Stone’s Justices’ Manual*) ar gael wrth ddesg y dderbynfa ac mae’n cael ei ddiweddaru’n rheolaidd. Mae sesiynau ymchwil gyfreithiol ar gael hefyd a gellir eu trefnu drwy liniaduron y carcharorion, gydag aelodau o staff ar gael i gefnogi mynediad. Mae cyfeiriaduron asiantaethau cymorth bellach hefyd ar gael trwy liniaduron carcharorion. Mae'r llyfrgell yn cynnal sesiynau darllen dramâu yn rheolaidd ac yn annog dynion i gymryd rhan mewn digwyddiadau llenyddol sy'n gysylltiedig â llyfrgelloedd allanol, gan gynnwys ymweliadau gan awduron; mynychodd dau awdur fel rhan o Ŵyl Lenyddol y llynedd. Gall carcharorion niwroamrywiol fynychu sesiynau pori pwrpasol a gynlluniwyd i ddarparu amgylchedd tawelach a mwy hamddenol.

Mae elusen Ymddiriedolaeth Shannon yn darparu rhaglen ddarllen ymarferol rhwng cyfoedion i'r rhai sydd ei hangen. Yn ogystal ag Ymddiriedolaeth Shannon, mae darpariaeth i ddynion ddarllen i'w plant trwy'r elusen Storybook Dads. Trefnir amser yn y llyfrgell yn ystod cyfnod tawel, mae llyfr yn cael ei recordio ac mae'r sain yn cael ei lanlwytho i wefan Storybook Dads, lle mae effeithiau sain yn cael eu hychwanegu. Yna gall teuluoedd lawrlwytho'r recordiad gorffenedig trwy ap.

## 7.2 Hyfforddiant galwedigaethol, gwaith

Mae’r gweithdai yn cynnwys: academi sgiliau tai modiwlaidd (adeiladu cartrefi ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Williams Homes o’r Bala), weldio a saernïo, DHL (dewis eitemau cantîn ar gyfer pum sefydliad carchar arall, brecwast/campfa a phecynnau cyfforddusrwydd), ailgylchu, gwaith coed aml-sgiliau (mainc a safle) a gosod brics a phlastro.  Mae’r gweithdai yn cyflogi 642 carcharor, tua 28% o’r boblogaeth safonol, sy’n uwch na’r 26% yn 2024-2025. Mae ein gwaith monitro wedi dangos bod tua 70% o ddynion yn mynychu eu sesiynau dynodedig. Ymhlith y rhesymau a roddir am absenoldeb mae apwyntiadau meddygol, ymweliadau cymdeithasol a mynd i’r gampfa. Fodd bynnag, mae trosiant yn y boblogaeth hefyd yn ffactor arwyddocaol.

Yn ogystal â hyn, mae tri gweithdy wedi'u dynodi ar gyfer carcharorion agored i niwed: tecstilau, aml-sgiliau (cynhyrchu bagiau tywod) a weldio a saernïo. Gyda'i gilydd, maent yn cyflogi 185 o ddynion – tua 50% o'r boblogaeth carcharorion agored i niwed.

Nodwyd nifer o faterion yn ein gwaith monitro, gan gynnwys dynion ddim yn gwisgo'r cyfarpar diogelwch cywir (e.e. esgidiau diogelwch a sbectolau llwch) yn yr ardaloedd saernïo a gosod brics/plastro, pan fyddant yn orfodol), ac yn y tywydd cynnes iawn, nid oedd unrhyw amddiffyniad rhag yr haul i'r gweithwyr yn yr awyr agored. Yn y ddau achos hyn, rhoddwyd mesurau ar waith i'w hunioni, ac mae ein gwaith monitro pellach wedi cadarnhau hyn.

Yn llawer o'r gweithdai, mae'r dynion yn cael cyfle i ennill cymwysterau drwy'r adran addysg.

Mae effaith y cynllun rhyddhau yn gynnar wedi golygu nad yw rhai dynion wedi gallu cwblhau eu cyrsiau.

### 7.3 Rheoli troseddwyr, cynnydd

Fel yr adroddwyd y llynedd, mae dilyniant y cynlluniau rhyddhau cynnar wedi achosi pwysau dwys a pharhaus ar swyddogion prawf, rheolwyr troseddwyr sy'n garcharorion (POMs) a'r staff sydd wedi bod yn ymwneud yn barhaus ag ail-gyfrifo dedfrydau. Mae diwydrwydd ac ymrwymiad y staff i'w canmol. Mae'r newidiadau hyn, ynghyd ag adalwadau gorfodol o 14 a 28 diwrnod, wedi achosi trosiant cyson yn y boblogaeth.

Mae pob un o'r newidiadau i'r cynlluniau rhyddhau yn gynnar wedi arwain at ail-gyfrifo dedfryd yn llwyr, ac mae POMs, nad ydynt yn gysylltiedig ag ail-gyfrifo dedfrydau, yn gorfod rheoli ymholiadau a disgwyliadau carcharorion yn ystod pob newid. Weithiau, mae dynion yn cael gwybod gan eu swyddog prawf cymunedol am eu dyddiad rhyddhau, ond canfyddir wedyn eu bod yn anghywir. Nid yw'r lefel staffio POM i'w gryfder llawn.

Mae pwysau poblogaeth yng ngharchardai gogledd-orllewin Lloegr yn effeithio ar garchar y Berwyn ac maent yn aml yn derbyn trosglwyddiadau o garchardai eraill. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn nodi bod carcharorion yn aml yn cyrraedd o garchardai eraill ac ar warantau heb gwblhau eu gwaith papur yn gywir. Mae hyn yn effeithio ar OASyS (system asesu troseddwyr) asesiadau risg ac ansawdd gwarantau a chyfrifiadau dedfrydau blaenorol. Mae staff yng ngharchar y Berwyn yn aml yn gorfod diwygio'r gwaith papur hwn ac mae'n bosibl eu bod yn gorfod hysbysu carcharorion bod y cyfrifiadau hyn yn golygu dyddiad rhyddhau hwyrach na'r hyn yr oeddynt wedi'i ddisgwyl.

Mae gan y Berwyn naw swyddog prawf, er y dylai fod gan y carchar nifer sy'n gyfwerth â 17.5 amser llawn. Mae ganddynt lwyth achosion o 45-50 yr un. Mae gan POMs gweithredol band 4 lwyth achosion o tua 60 yr un. Mae recriwtio dau POM sy'n gallu siarad Cymraeg yn flaenoriaeth.

Mae yna 47 carcharor IPP (wedi'u carcharu er mwyn diogelu'r cyhoedd) yn y Berwyn.

Mater o bryder arbennig yw bod y Berwyn wedi'i ddynodi i dderbyn trosglwyddiadau o ieuenctid yn y ddalfa a llety diogel i ddynion ifanc sy'n cyrraedd eu pen-blwydd yn ddeunaw oed. Mae pryder sylweddol, nid yn unig ar ran y Bwrdd, ond hefyd ar ran y carchar a'r Gwasanaeth Prawf, bod maint carchar y Berwyn yn ei wneud yn anaddas ar gyfer pobl ifanc cymhleth. Fodd bynnag, mae'r tîm prawf yn gweithio'n agos gyda'r gweithwyr cymorth presennol i esmwytho'r trosglwyddiad. O bosibl, mae angen lefel llawer uwch o gymorth ar bob dyn ifanc gan eu POM nag sy'n arferol i garcharorion eraill. Gallai hyn fod yn anodd ei gynnal, yn enwedig os yw dynion ifanc yn cyrraedd mewn niferoedd sylweddol.

Mae gormod o achlysuron pan nad yw carcharorion wedi'u hebrwng i'w cyfarfodydd cyfreithiol gan ddefnyddio'r cyfleusterau fideo. Mae'r rhesymau yn cynnwys nid yw'r staff wedi mynd â nhw i'r ystafell fideo, a bu achlysuron hefyd pan mae carcharorion wedi gwrthod mynychu.

### 7.4 Cyswllt teuluol

Mae elusen Barnardo's wedi parhau i ddarparu gwasanaethau teulu eleni. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth yn y neuadd ymweliadau i deuluoedd (mae storfa fawr gyda theganau a deunyddiau creadigol ac yn y blaen) ac mae Barnardo's a staff y carchar yn monitro'r cysylltiadau gydag ymwybyddiaeth o faterion diogelu. Cafwyd 40 cofnod 'llyfr glas' yn y pedwar mis hyd at ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae'r llyfr glas yn cofnodi pryderon diogelu a gallai rhai o'r rhain arwain at atgyfeiriad at y gwasanaethau cymdeithasol. Trefnir dyddiau thema i deuluoedd unwaith y mis, gyda thri dyddiad ym mis Awst ar gyfer dyddiau chwaraeon i'r teulu a thri ym mis Rhagfyr ar gyfer ymweliadau'r Nadolig.

Mae cynllun peilot bwydo ar y fron y llynedd bellach ar waith yn barhaol ac mae wedi cael derbyniad da gan famau sy'n ymweld. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol fel rhan o arfer ehangach sy'n canolbwyntio ar iechyd ac sy'n canolbwyntio ar y teulu yn ystod ymweliadau.

Mae'r system trefnu ymweliadau wedi newid yn ddiweddar: yn hytrach na'r dynion yn trefnu ymweliadau ar eu gliniaduron, teuluoedd sydd bellach sy'n trefnu'r ymweliadau. Mae adborth gan deuluoedd wedi bod yn gadarnhaol ers trosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn iddynt. Un o'r prif fanteision a amlygwyd yw nad oes angen i deuluoedd aros yn yr ystafell aros cyn ymweliadau mwyach, sydd wedi bod yn arbennig o fuddiol i blant ac wedi gwella eu profiad ymweld cyffredinol.

Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn nodi y bu problemau yn ystod y flwyddyn gydag oedi cyn darparu PIN ffonau ac ychwanegu aelodau'r teulu i'r rhestrau galwadau; nid yw hyn yn cefnogi cyswllt teuluol yn ystod y cyfnod allweddol pan fydd carcharorion yn cyrraedd y Berwyn am y tro cyntaf. Yn ogystal, nid yw ffonau yn y celloedd a chiosgau ar bennau grisiau wedi gweithio ar adegau, gan greu anawsterau pellach wrth gynnal cysylltiad. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol hefyd wedi nodi rhai achosion o oedi yn yr ystafell bost, gan gynnwys problemau gyda chopïo post sy'n dod i mewn ac oedi cyn derbyn papurau cyfreithiol.

Er bod y nifer o garcharorion agored i niwed wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn, mae'n ymddangos bod y nifer o ymweliadau cymdeithasol sy'n cael eu trefnu ar gyfer carcharorion agored i niwed yn is nac yn y boblogaeth gyffredinol ac mae'n lleihau.

Mae trosglwyddiadau am resymau tosturiol yn digwydd yn arafach o ganlyniad i

broblemau sy'n deillio o bwysau y boblogaeth ar draws yr ystâd carchardai.

### 7.5 Cynllunio ailsefydlu

Mae yna naw Ymarferydd Ailsefydlu Prawf yng Ngharchar Berwyn EF. Mae yna hefyd dri o bobl yn gweithio yn y Berwyn, sy’n cael eu cyflogi gan yr elusen Nacro, sy’n darparu gwasanaethau adsefydlu cymunedol (CRS) ar gyfer llety. Mae gwasanaethau yn cael eu comisiynu yn ôl rhanbarth, felly mae CRS llety Nacro yn berthnasol i garcharorion o Gymru yn unig (oni bai eu bod ar remand/heb eu dedfrydu). O arsylwadau’r Bwrdd, mae Ymarferwyr Ailsefydlu Prawf wedi gweithio’n galed i wneud cysylltiadau gyda Rhanbarth Brawf Gogledd-orllewin Lloegr. Mae un person CRS yn dod i mewn unwaith yr wythnos i gefnogi carcharorion Manceinion Fwyaf, ond nid yw hyn wedi bod mor llwyddiannus gyda Glannau Mersi oherwydd trefniadau contract. Mae elusen St Giles yn darparu gwasanaeth llesiant a chymorth personol dri diwrnod yr wythnos sy’n cwmpasu Cymru gyfan.

O ran llety ar ôl rhyddhau, mae'r awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr, a adroddwyd y llynedd eu bod yn dod i'r carchar i gefnogi'r broses, wedi parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol i Gyngor Bwrdeistref Wrecsam, sydd ond yn cynnal asesiadau tai ar adeg rhyddhau. Ar hyn o bryd, mae 10% o ddynion yn mynd allan yn ddigartref ar ôl eu rhyddhau. Mae Shelter Cymru yn helpu gyda rhai materion tai, ond yng Nghymru yn unig.

Mae staff yn y gwasanaeth prawf ac ailsefydlu wedi mynegi pryder ynghylch canlyniad yr adolygiad OMIC (rheoli troseddwyr yn y ddalfa), a fydd yn newid y cydbwysedd rhwng staff carchar a staff cymunedol. Mae llawer o'r gwaith cadarnhaol sydd ar y gweill yn cael ei ysgogi gan ymdrechion parhaus i adeiladu a chryfhau perthnasoedd rhwng partneriaid i gefnogi dynion ar ôl eu rhyddhau.

Mae trosiant y boblogaeth, yn enwedig adalwadau tymor byr, wedi ei gwneud yn anodd gwneud ymyriadau ystyrlon, oherwydd bod ffenestri adsefydlu yn rhy fyr i garcharorion gwblhau eu rhaglenni cyn rhyddhau. Mae hyn wedi effeithio ar gyfraddau aildroseddu ac adalw.

# 8. Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae'r Bwrdd yn dymuno cofnodi ei fod wedi cael anawsterau wrth gyflawni ei ddyletswyddau oherwydd problemau mynych a pharhaus wrth gael mynediad at systemau a dogfennau, ac oedi wrth ddatrys y problemau hyn.

**Ystadegau'r Bwrdd**

| | |
|---|---|
| Y nifer a argymhellir o aelodau'r Bwrdd | 18 |
| Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 10 |
| Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd | 8, ac un ar gyfnod sabothol |
| Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad | 470 |

**Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol**

| Cod | Pwnc | Blwyddyn adrodd flaenorol | Blwyddyn adrodd gyfredol |
|---|---|---|---|
| A | Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, golchiadau | 20 | 29 |
| B | Disgyblaeth, gan gynnwys dyfarniadau, cynllun cymhellion, sancsiynau | 15 | 42 |
| C | Cydraddoldeb | 7 | 10 |
| D | Gweithgaredd pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, amser allan o'r gell | 8 | 20 |
| E1 | Llythyrau, ymweliadau, ffonau, cyfyngiadau diogelu'r cyhoedd | 17 | 42 |
| E2 | Cyllid, gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant | 9 | 22 |
| F | Bwyd a cheginau | 4 | 18 |
| G | Iechyd, gan gynnwys gofal corfforol, meddyliol, cymdeithasol | 26 | 54 |
| H1 | Eiddo o fewn y sefydliad | 20 | 35 |
| H2 | Eiddo yn ystod y trosglwyddiad neu mewn sefydliad neu leoliad arall | 10 | 21 |
| H3 | Cantîn, rhestr cyfleusterau, catalogau | 1 | 11 |
| I | Rheoli dedfrydau, gan gynnwys Cyrffyw Cadw yn y Cartref, rhyddhau ar drwydded dros dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio | 21 | 55 |
| J | Pryderon staff/carcharor, gan gynnwys bwlio | 20 | 74 |
| K | Trosglwyddiadau | 10 | 13 |
| L | Amrywiol | 35 | 111 |
| | **Cyfanswm y ceisiadau** | **223** | **559** |

OGL

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn imb@justice.gov.uk